PWYLLGOR CRAFFU’R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD LLUN, 17 HYDREF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Cunnah, Henshaw, Jenkins a/ac Lloyd Jones |

26 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Robinson.

27 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

28 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2022 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

29 : YMATEB Y CABINET - ADRODDIAD YMCHWILIAD CHWARAEON CYMUNEDOL YNG NGHAERDYDD

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Pwyllgor i dderbyn Ymateb y Cabinet i'r argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad. Roedd pum argymhelliad wedi'u derbyn yn llawn a derbyniwyd un argymhelliad, R5, yn rhannol. Ni chafodd unrhyw argymhellion eu gwrthod.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Burke-Davies - Aelod Cabinet - Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau
- Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd, a oedd yn sefyll mewn dros Steve Morris gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am unrhyw sylwadau, arsylwadau neu gwestiynau.

Nid oedd unrhyw gwestiynau ar gyfer yr eitem hon.

CYTUNWYD: i dderbyn ymateb y Cabinet a derbyn adroddiadau cynnydd ar y gwaith sydd ei angen i weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt, gyda'r cyntaf o'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer Ebrill neu Fai 2023.

## 30 : ADOLYGIAD AR GONTRACT GWASANAETHAU HAMDDEN (GLL)

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd ynghlwm wrth Atodiad A o'r papurau.

Cwmpas craffu'r Pwyllgor yw archwilio'r cynigion sydd yn yr adroddiad i'r Cabinet, y goblygiadau ariannol i'r Cyngor, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, beth yw'r camau nesaf, ac, yn hollbwysig, archwilio'r argymhellion i'r Cabinet.

Atgoffwyd aelodau fod Atodiadau 1,2 a 5 o Atodiad A yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, felly ni ddylid gofyn unrhyw gwestiynau na sylwadau ar y rhain mewn sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Burke-Davies - Aelod Cabinet - Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau
- Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau ac Awdurdod Harbwr Caerdydd, a oedd yn sefyll mewn dros Steve Morris gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Swyddogion. Yna gwahoddwyd yr Aelodau i wneud unrhyw sylwadau, arsylwadau neu i ofyn unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd y byddai cwsmeriaid yn dal i allu mynd i doiledau yng Nghanolfan Gymunedol a Llyfrgell Pentwyn hyd yn oed os nad oeddent yn aelod o ganolfan hamdden, gan fod yr Aelodau wedi cael gwybod am rai problemau o ran hyn. Doedd swyddogion ddim yn ymwybodol o'r mater ac fe awgrymodd mai gwaddol o'r pandemig oedd hyn ac y dylid caniatáu mynediad i'r cyhoedd. Dywedodd swyddogion y bydden nhw'n cysylltu â GLL yn uniongyrchol er mwyn datrys y mater.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd y bydd y buddsoddiadau a'r gwelliannau i Ganolfan Hamdden Pentwyn, i'r adeilad, y cyfleusterau a'r Caeau 3G, yn dal yn mynd yn eu blaen. Dywedodd swyddogion fod y Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i hyn ac i gynnal y Pwll yno. Ychwanegon nhw fod costau wedi cynyddu'n aruthrol ond maen nhw'n gweithio drwyddyn nhw ac yn edrych i gael gwerth am arian. Nodwyd bod y gwariant ar y tu allan i'r adeilad ac efallai y bydd angen i'r to ddod i lawr. Roedd aelodau wedi cael sicrwydd na fyddai Rygbi Caerdydd, sy'n rhentu erbyn hyn, yn newid y cynigion. Fe fyddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a’r Pwyllgor Craffu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd y system archebu gwefan ar gyfer Canolfannau Hamdden a gwersi nofio yn reddfol ac y dylid ei gwella. Gofynnodd aelodau hefyd am eglurhad ar y system er mwyn i gwsmeriaid ddarparu awgrymiadau, cwynion, a chanmoliaeth i GLL. Ystyriodd swyddogion fod y sylwadau ar y system archebu yn deg, gan ddweud y bydden nhw'n bwydo hyn yn ôl i GLL. Ychwanegodd swyddogion y byddai GLL yn hapus i fynychu'r Pwyllgor yn y dyfodol i ddiweddaru

Aelodau ar berfformiad, a byddai cyfle i Aelodau roi adborth ac unrhyw sylwadau iddyn nhw. Cytunodd swyddogion i gael gwybod am y cwynion/sylwadau/canmoliaeth a darparu'r wybodaeth hon i Aelodau.

Bu'r aelodau'n trafod cymorthdaliadau'r Cyngor i GLL a dywedodd Swyddogion nad oedd unrhyw rai, dim ond y cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad. Ychwanegodd swyddogion, gyda'r achos sylweddol presennol gyda'r argyfwng ynni, eu bod yn edrych ar rai ymyriadau tymor byr i helpu. Roedd swyddogion yn awyddus i bwysleisio bod Canolfannau Hamdden yn arfer costio llawer o arian i'r Cyngor, ond bellach mae GLL yn eu gweithredu heb unrhyw gymhorthdal.

Amlygodd yr aelodau fod y dyddiadau ar Atodiadau A a 4 yn 2 fis oed a holwyd a oedd hyn yn adlewyrchiad cywir o'r amserlen ac a oedd targedau wedi'u cyrraedd. Nododd swyddogion fod yna 2 raglen ac efallai y bydd yna gam-alinio a chytunwyd i egluro hyn a dod nôl at yr aelodau.

Trafododd yr aelodau'r cymhelliant y tu ôl i'r newid i ynni adnewyddadwy o ran seilwaith ac a oedd hyn yn ariannol ynteu er budd ôl troed carbon. Eglurodd swyddogion mai cynnig i leihau costau oedd yr ysgogiad i raddau helaeth ac mai budd ochr oedd y gostyngiad yn yr ôl troed carbon. Ychwanegodd swyddogion fod hwn yn gynnig oedd yn destun achos busnes llawn yn mynd i'r Cabinet, gyda chyllid y Llywodraeth i gefnogi costau cyfalaf o leiaf, roedd cyfnod hir o ran talu'n ôl ar ynni adnewyddadwy.

Trafododd yr aelodau ostwng tymheredd y dŵr mewn pyllau o 1 gradd ac a oedd hyn yn effeithio ar gostau. Esboniodd swyddogion mai ffocws GLL oedd lleihau costau ynni 20% ar draws pob canolfan trwy wahanol ddulliau, heb leihau'r niferoedd oedd yn defnyddio'r canolfannau, dim ond un dewis oedd gostwng y tymheredd ond doedden nhw ddim eisiau i bobl roi'r gorau i ddefnyddio'r pyllau.

Cyfeiriodd aelodau at yr adolygiad o Ganolfannau Hamdden ac a fyddai hyn yn cael ei gynnal un ganolfan ar y tro, gan ddarganfod y peryglon, neu drwy gynnal un peilot ac yna cario ymlaen gyda nifer o ganolfannau ar yr un pryd. Esboniodd swyddogion fod y dull y maen nhw'n ei ddefnyddio yn cael ei roi ar brawf a'i brofi ar draws y Wlad, maen nhw'n defnyddio arbenigwr ynni gan nad oes amser i'w wastraffu, mae hwn yn fater ar unwaith ac mae angen mynd i'r afael ag ef yn syth.

Gofynnodd yr aelodau pa ymdrechion oedd wedi'u gwneud i gael nifer yr ymwelwyr mewn Canolfannau Hamdden, yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig. Esboniodd swyddogion ei bod wedi ei godi gyda GLL y gallent wneud mwy i hyrwyddo'r Canolfannau Hamdden. Ychwanegodd swyddogion bod nifer o ganolfannau wedi gwella'n dda ers y pandemig mewn gwirionedd, yn enwedig rhaglen Nofio Dysgu 2, o'i gymharu â rhannau eraill o'r wlad. Ategodd swyddogion y byddai'n dda gwahodd GLL draw i Bwyllgor yn y dyfodol i ateb cwestiynau'r aelodau, ond ei fod er budd gorau GLL i gynyddu incwm.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

31 : DIWEDDARIAD AR GYNLLUN ADFYWIO LLANRHYMNI

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad i'r Cabinet, sydd ynghlwm wrth Atodiad A o'r papurau.

Cwmpas y craffu yw archwilio'r cynigion sydd yn yr adroddiad i'r Cabinet, y goblygiadau ariannol i'r Cyngor, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, beth yw'r camau nesaf, ac yn hollbwysig, archwilio'r argymhellion i'r Cabinet.

Atgoffwyd aelodau bod Atodiadau 2-4 o Atodiad A ac Atodiad B yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, felly ni ddylid gofyn cwestiynau na sylwadau ar y rhain mewn sesiwn agored.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Russell Goodway - Aelod Cabinet - Buddsoddi a Datblygu
- Neil Hanratty - Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Chris Barnett - Rheolwr Gweithredol - Prosiectau Mawr
- Eirian Jones - Rheolwr Gweithredol - Ystadau Strategol

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Swyddogion. Yna gwahoddwyd yr Aelodau i wneud unrhyw sylwadau, arsylwadau neu i ofyn unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd yr aelodau a yw'r Nodyn Cyngor Technegol 15 diwygiedig (TAN 15) wedi cael effaith ar y cynigion. Dywedodd swyddogion ei fod yn arwain at risg uwch o lifogydd, ac mae'r datblygwr wedi gweithio i fynd i'r afael â nhw drwy fodelau wedi'u diweddaru, sy'n cael eu trafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Gofynnodd yr aelodau sut mae'r cyswllt ffordd a'r bont arfaethedig yn cyd-fynd â moratoriwm Llywodraeth Cymru wrth godi ffyrdd. Esboniodd swyddogion fod cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru wedi ei gyfyngu i ffyrdd y mae'n eu hariannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac nad yw hyn yn berthnasol i'r ffordd gyswllt a'r bont arfaethedig yn Llanrhymni, sy'n cael ei ariannu'n breifat. Ychwanegodd swyddogion fod y penderfyniad i adeiladu'r ffordd gyswllt a'r bont wedi ei wneud yn 2019, cyn i foratoriwm Llywodraeth Cymru ddechrau.

Gofynnodd yr aelodau sut mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor i wella shifft foddol a lleihau'r defnydd o geir. Esboniodd swyddogion na fydd y ffordd gyswllt a'r bont newydd yn cynyddu'r defnydd o geir ond bydd yn cynorthwyo trigolion Llanrhymni gyda shifft foddol, gan roi mynediad i'r cyfleuster parcio a theithio a bysus cyflymach i ganol Caerdydd, a lleihau tagfeydd ar Heol Casnewydd.

Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn pryd y byddai giât y bws yn gweithredu, o ystyried y bydd hyn yn cyflymu amseroedd teithio ac felly'n cynyddu atyniad teithio ar fws; nododd yr aelodau y bydd hyn yn cael ei benderfynu fel rhan o'r broses ymgeisio cynllunio gyda mewnbwn gan swyddogion trafnidiaeth.

O ran cyfraniadau Adran 106, sy'n cael eu defnyddio i ariannu'r costau Teithio Llesol uwch sy'n deillio o'r fanyleb uwch y cytunwyd arni fel rhan o'r broses ymgeisio cynllunio, nododd yr Aelodau fod y rhain yn dod o safleoedd mawr yng nghronfeydd Adran 106 Gogledd Caerdydd a ddynodwyd yn benodol ar gyfer teithio llesol.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o’r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 32 : GOHEBIAETH

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar Ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd. Cafodd aelodau wybod fod dau ymateb heb eu gwneud ar hyn o bryd.

## 33 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

## 34 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

16 Tachwedd 2022 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm